# Ennill a gwario - Cynllun gweithgaredd

## Disgrifiad

Gêm gardiau a dis syml i annog y dysgwyr i weithio ar adio a thynnu gwerthoedd ariannol, gan ddefnyddio cofnodion cyllid.

## Paratoi

Dewiswch nifer y grwpiau 2 – 4 dysgwr i bob grŵp.

Argraffwch a thorrwch gardiau'r gêm allan a nodwch y rhif cyfatebol ar y cefn (1-5) – un set i bob grŵp. Cymysgwch bob pentwr.

Argraffwch y taflenni sut i chwarae. Naill ai un i bob dysgwr neu un i bob grŵp.

Argraffwch y daflen Cofnodion Cyllid Personol. Un i bob dysgwr.

Rhowch y pum pentwr o gardiau, wyneb i lawr ar y bwrdd, yng nghanol pob grŵp.

## Adnoddau

Yr holl ddeunyddiau i'w hargraffu a ddarperir

Papur sgrap
(ar gyfer gwaith cyfrifo)

Pensiliau a dilewyr

Un dis i bob grŵp

## Geirfa

Incwm, gwariant, balans

### Cyflwyniad/cyd-destun

Gosodwch y cyd-destun trwy ddisgrifio natur cyllid teuluol; y mathau o incwm a gwariant, a phwysigrwydd cadw golwg ar gyllid.

Cefnogwch ddealltwriaeth o reolau'r gêm, gydag enghreifftiau.

Os ydych chi'n dymuno chwarae gêm gydamserol dros sawl sesiwn, gwnewch nodyn o drefn y dysgwyr o amgylch y bwrdd, er mwyn iddyn nhw allu dechrau o'r man lle gwnaethon nhw orffen y tro diwethaf.

Amser
25-50 munud

### Chwarae'r Gêm

Gadewch i'r dysgwyr weithio drwy'r gêm, gan helpu gyda chyfrifiadau pan fo angen.

Amser
5 munud

### Rhoi i gadw


Gofynnwch i'r dysgwyr wneud nodyn ar eu taflenni o dro pwy oedd hi ddiwethaf. Dychwelwch y cardiau a'r taflenni yn ofalus i'ch ffolderi i'w defnyddio eto yn y dyfodol.

### Amrywiadau/ehangu ar y gweithgaredd

Creu cardiau newydd i ehangu ar y gêm gyda chyfrifiadau mwy cymhleth, fel gwerthoedd mwy neu gyflwyno canrannau.

## Sut i chwarae

Mewn grwpiau o 4 i 6 o bobl, eisteddwch mewn cylch. Rhowch y cardiau mewn pum pentwr yng nghanol y bwrdd.




Dylai fod gan bob chwaraewr daflen cofnod cyllid personol. Dyma le byddwch yn cofnodi ac yn gweithio allan faint o arian sydd gennych drwy gydol y gêm.

Mae'r ddwy linell gyntaf wedi'u llenwi i'ch helpu i weld sut i lenwi'r daflen.

Bob tro y byddwch chi'n ennill rhywfaint o arian, nodwch hynny yn y golofn **Incwm**.

Bob tro y byddwch chi'n gwario neu'n colli arian, nodwch hynny yn y golofn **Gwariant** gyda – (minws).

Mae **incwm** yn golygu arian sy'n dod i mewn. **Gwariant** yw arian sy'n mynd allan.

- Rydych chi'n dechrau'r gêm gyda diwrnod arian poced ac yn ennill £30.00.
  Mae hwn ar eich taflen yn barod.
- Cymerwch dro i daflu'r dis. Os ydych chi'n taflu 1 i 5, codwch gerdyn o'r un rhif.
  Efallai y bydd y cerdyn yn dweud eich bod wedi ennill arian.
  Efallai y bydd y cerdyn yn dweud eich bod wedi gwario neu golli arian.
- Mae cardiau rhif un a dau yn fathau gwahanol o dreuliau.
- Mae cardiau rhif tri a phedwar yn fathau gwahanol o incwm.
- Mae cardiau rhif pump yn syrpreis!
- Os ydych yn rholio chwech, mae'n ddiwrnod arian poced ac mae pob chwaraewr yn cael £30.00!
- Ar ôl rholio'r dis; gall y chwaraewr nesaf rolio, wrth i chi ychwanegu'r incwm neu'r gwariant at eich taflen cofnod cyllid personol.
- Ar ôl ychwanegu'r swm at eich taflen, bydd angen i chi ddarganfod y balans.
  Edrychwch ar y golofn balans yn y rhes uwchben. Mae'r ffigur hwn yn dweud wrthych faint o arian a oedd gennych chi cyn i chi ddewis eich cerdyn diwethaf. Os ydych chi wedi ennill mwy o arian, bydd angen i chi ei ychwanegu at y balans. Os ydych chi wedi gwario neu golli arian, bydd angen i chi ei dynnu oddi ar y balans.
  Yna bydd gennych chi falans newydd.

## Cofnod Cyllid Personol

| Eitem | Incwm | Gwariant | Balans |
|---|---|---|---|
| *Arian Poced* | *£30.00* | | *£30.00* |
| *Losin* | *£2.00* | *-£2.50* | *£27.50* |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

1

Mae dy ffrind wedi bod yn brolio bod ganddo'r gêm gyfrifiadur ddiweddaraf. Rwyt ti'n genfigennus ac yn gwario arian.

**-£29.99**

1

Mae angen i dy ffrind alw i mewn i'r siop i gael llaeth. Rwyt ti'n sylwi ar deganau y mae'n rhaid eu cael!

**-£10.10**

1

Rwyt ti'n mynd i barti ac eisiau steil newydd. Rwyt ti'n prynu jîns newydd.

**-£20.98**

1

Mae'n ben-blwydd dy ffrind gorau. Rwyt ti'n prynu anrheg neis iawn i dy ffrind.

**-£15.25**

1

Rwyt ti'n prynu tocyn i weld dy hoff fand.

**-£25.75**

1

Mae catalog yn cael ei bostio trwy'r drws gyda phethau mor cŵl. Rwyt ti'n archebu daliwr corryn a pherisgop.

**-£22.35**

1

Rwyt ti'n mynd i'r traeth ond nid wyt ti'n hoffi eistedd ar y tywod felly rwyt ti'n prynu cadair sy'n plygu.

**-£26.99**

1

Rwyt ti'n prynu tocyn trên i ymweld â dy deulu.

**-£18.20**

1

Rwyt ti'n prynu siwmper newydd, am bris gostyngedig.

**-£16.15**

1

Rwyt ti'n prynu crys-t archarwr.

**-£12.99**

1

Rwyt ti'n prynu diodydd, siocledi a byrbrydau oherwydd dy fod wedi anghofio dy becyn cinio.

**-£14.50**

1

Mae gan y siop deganau ddisgownt! Roedd y set blociau adeiladu roeddet ti eisiau ei chael yn £50 ond nawr mae dim ond yn...

**-£28.55**

1

Rwyt ti'n mynd ar drên
i'r traeth am y diwrnod.

**-£21.50**

1

Rwyt ti'n mynd i fowlio
gyda dy ffrindiau.

**-£14.35**

1

Rwyt ti'n prynu blodau i
rywun arbennig.

**-£18.60**

1

Rwyt ti'n clywed hysbyseb radio ar
gyfer lleoliad tag laser newydd.
Rwyt ti'n cadw lle ar unwaith!

**-£11.28**

1

Mae gan yr archfarchnad leol
deganau am hanner pris. Rwyt ti'n
prynu set gelf i dy hun.

**-£16.35**

1

Rwyt ti'n prynu esgidiau
newydd anhygoel.

**-£24.49**

2

Rwyt ti eisiau bwyd.
Rwyt ti'n prynu bar o siocled.

**-£0.75**

2

Rwyt ti'n prynu byrger
a sglodion i dy hun.

**-£4.31**

2

Rwyt ti'n mynd i'r sinema.

**-£7.00**

2

Rwyt ti'n ffansio pitsa parod
ac yn sblasio allan.

**-£9.13**

2

Mae pawb yn casglu'r cardiau masnachu diweddaraf. Rwyt ti eisiau bod yn rhan o hyn ac yn prynu pecyn.

**-£2.19**

2

Rwyt ti'n cael tacsi adref gan
ei fod yn bwrw glaw.

**-£3.86**

2

Rwyt ti'n prynu hadau
a phridd i dyfu llysiau.

**-£8.62**

2

Rwyt ti'n prynu bag o losin
i godi calon rhywun.

**-£0.50**

2

Rwyt ti'n prynu clai i wneud addurn
i dy athro/athrawes.

**-£3.54**

2

Rwyt ti'n ymweld â'r sw.

**-£6.70**

2

Rwyt ti wedi bod yn chwilio
ar-lein ac yn dod o hyd i declyn
sy'n newid sŵn dy lais.

**-£5.45**

2

Rwyt ti'n mynd i barti peli paent.

**-£7.51**

2

Rwyt ti'n gweld hysbyseb ar y teledu ar gyfer cylchgrawn archarwr, gyda ffigurau casglu. Rwyt ti'n rhuthro i brynu'r rhifyn cyntaf.

**-£2.35**

2

Rwyt ti'n prynu hadau blodau gwyllt ac yn eu gwasgaru ar hyd y glaswellt, ar gyfer y gwenyn.

**-£3.99**

2

Ar y traeth, rwyt ti'n prynu sglodion, hufen iâ a bwced a rhaw.

**-£7.01**

2

Rwyt ti'n cael dy ddal yn y glaw ac mae'n rhaid i ti brynu ymbarél.

**-£8.75**

2

Rwyt ti'n prynu hadau i fwydo'r adar yn dy ardd.

**-£1.93**

2

Rwyt ti'n prynu diodydd a byrbrydau ar gyfer noson yn nhŷ ffrind.

**-£4.58**

3

Rwyt ti'n gweithio fel gweinydd mewn parti teuluol ac yn ennill cil-dwrn

**£2.10**

3

Rwyt ti'n torri'r lawnt ac yn ennill...

**£5.00**

3

Rwyt ti'n mynd â chas ffôn diffygiol yn ôl i'r siop am ad-daliad.

**£7.25**

3

Rwyt ti'n gweithio rownd bapur.

**£9.50**

3

Rwyt ti'n mynd i brynu sglodion i'r teulu ac yn cael cadw'r newid.

**£0.75**

3

Rwyt ti'n helpu cymydog oedrannus gyda'i siopa ac mae hi'n caniatáu i ti gadw'r newid.

**£3.47**

3

Rwyt ti'n gwerthu losin mewn ffair gymunedol.

**£6.83**

3

Rwyt ti'n helpu yn y ffair leol ac yn cael dy dalu...

**£8.26**

3

Mae cymydog yn dy dalu i helpu i roi ei finiau allan.

**£2.50**

3

Rwyt ti'n tyfu llysiau hyfryd ac yn eu gwerthu mewn marchnad ar benwythnosau.

**£3.60**

3

Fe wnest ti wario arian ar declyn diangen. Rwyt ti'n ei ddychwelyd am ad-daliad.

**£5.75**

3

Rwyt ti'n dod o hyd i gi coll ac yn cysylltu â'r perchennog sy'n rhoi gwobr i ti.

**£8.00**

3

Rwyt ti'n dod o hyd i £1 ar y ffordd i'r ysgol!

**£1.00**

3

Rwyt ti'n codi dail i dy gymydog ac mae'n dy dalu...

**£4.88**

3

Rwyt ti'n gofalu am fochdew dy ffrind am wythnos ac mae'n dy dalu...

**£6.20**

3

Diwrnod poeth a pharc prysur? Rwyt ti'n gweld cyfle ac yn gwerthu gwydreidiau o ddŵr.

**£8.14**

3

Rwyt ti'n rhedeg i'r siopau ar ran cymydog oedrannus ac mae'n caniatáu i ti gadw'r newid.

**£1.75**

3

Rwyt ti'n defnyddio synhwyrydd metel ac yn dod o hyd i lawer o newid coll ar y traeth.

**£4.80**

**4**

Rwyt ti'n chwarae cerddoriaeth gyda ffrindiau ar y stryd ac mae pobl yn ei hoffi gymaint, maen nhw'n dechrau rhoi arian i chi.

**£12.12**

**4**

Rwyt ti'n gwerthu hen ddillad sy'n rhy fach i ti erbyn hyn.

**£15.87**

**4**

Rwyt ti'n pobi teisennau fegan a'u gwerthu mewn gŵyl fwyd.

**£20.75**

**4**

Rwyt ti'n gwerthu rhai o dy hen gemau cyfrifiadurol.

**£25.05**

**4**

Rwyt ti'n helpu ffrind i'r teulu i ddechrau tudalen Facebook ar gyfer ei fusnes.

**£10.10**

**4**

Rwyt ti'n cael dy dalu i ofalu am dy gefnder ifanc am y prynhawn.

**£16.00**

**4**

Mae ffrind i'r teulu yn dy gyflogi i ddylunio gwefan.

**£21.18**

**4**

Rwyt ti'n helpu yn y siop leol am benwythnos.

**£26.64**

**4**

Rwyt ti'n gwneud addurniadau Nadolig pren ac yn eu gwerthu yn y ffair ysgol.

**£11.53**

**4**

Rwyt ti'n gwerthu paentiadau a darluniau.

**£17.41**

**4**

Rwyt ti'n ymweld â chartref hen bobl bob penwythnos ac maen nhw i gyd yn rhoi rhywfaint o arian i ti i ddweud diolch.

**£23.89**

**4**

Rwyt ti'n golchi ceir rhai o dy gymdogion.

**£20.00**

4

Rwyt ti'n gwneud cardiau Nadolig ac yn eu gwerthu i deulu a ffrindiau.

**£13.17**

4

Rwyt ti'n diddanu plant ifanc mewn parti pen-blwydd ac yn ennill cildyrnau gan y rhieni.

**£18.74**

4

Rwyt ti'n gwerthu bocs o dy hen deganau ar-lein.

**£22.87**

4

Rwyt ti'n mynd â rhai o dy hen bethau i werthiant cist car i'w gwerthu.

**£28.20**

4

Rwyt ti'n cael dy dalu i gerdded a bwydo ci y cymdogion tra'u bod nhw ar wyliau.

**£14.00**

4

Rwyt ti'n dechrau cynnig golchi ceir am £4.75 ac yn cael 4 cwsmer ar dy ddiwrnod cyntaf.

**£19.00**

5

Mae'n Nadolig!
Mae ffrind i'r teulu wedi rhoi...

**£10.00**

5

Rwyt ti'n prynu tocyn raffl
ond heb ennill, ddrwg gen i.

**-£5.00**

5

Rwyt ti'n dod o hyd i rywfaint
o newid mewn poced hen got.

**£8.00**

5

Mae dy fag ysgol wedi torri
ac rwyt ti'n prynu un newydd.

**-£11.50**

5

Rwyt ti'n cael cerdyn pen-blwydd
hapus gan dy fam-gu.

**£25.00**

5

Rwyt ti'n rhoi i elusen sy'n
helpu pobl ddigartref.

**-£22.00**

5

Rwyt ti'n creu darn o gelf trwy drefnu cerrig a ffyn yn y goedwig. Mae oriel leol yn meddwl ei bod yn hardd ac yn prynu'r ffotograffau oddi wrthot.

**£7.50**

5

Rwyt ti'n rhoi rhodd i elusen sy'n helpu i drin bywyd gwyllt sâl.

**-£7.50**

5

Rwyt ti'n ennill cystadleuaeth gelf ac yn derbyn...

**£25.00**

5

Rwyt ti'n ymweld â'r arcêd heb osod cyllideb. Rwyt ti'n gwario dy holl arian poced.

**-£30.00**

5

Rwyt ti'n ennill ychydig o arian am gyfrif a didoli darnau arian rhydd dy nain a thaid.

**£2.50**

5

Rwyt ti'n parhau i chwarae ar beiriant teganau meddal i geisio ennill tedi.

**-£10.00**

5

Rwyt ti wedi ennill pwyntiau teyrngarwch gydag archfarchnad ac maen nhw’n anfon taleb atat.

**£4.50**

5

Rwyt ti’n prynu glud i wneud sleim.

**-£2.00**

5

Rwyt ti’n talu am wers tenis.

**-£10.50**

5

Mae angen siampŵ a gel gwallt arnat.

**-£3.00**

5

Fe wnest ti anghofio Sul y Mamau! Mae’n rhaid i ti dalu mwy am gludiad diwrnod nesaf.

**-£12.00**

5

Mae nodyn llithrig £20, wedi cwympo allan o dy boced yn rhywle.

**-£20.00**